Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Dechrau'n Deg Sêr Ni Flying Start Nursery**

**Canolfan Blant Llwynhendy – Dechrau'n Deg**

**Heol Llwynhendy**

**Llwynhendy**

**Llanelli**

**SA14 9DP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Dechrau'n Deg Sêr Ni Flying Start Nursery

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Mehefin 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn. Maent yn gwybod y bydd y staff yn ystyried eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo, serch hynny mae nifer ohonynt yn newydd i'r lleoliad. Maent yn gwneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi mwynhad ac maent yn gyfforddus ac wedi ymlacio. Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ddilyn eu diddordebau ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae ganddynt system briodol ar waith ar gyfer monitro cynnydd y plant a chynllunio gweithgareddau.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a charedig â'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd glan, diogel ac addas.
Mae'r safle yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn darparu lle da i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer gwahanol oedrannau a chamau datblygiad. Mae risgiau diangen i'r plant wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn gyfforddus.

Mae'r trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r lleoliad yn dda ac yn drefnus. Mae'r staff yn awyddus iawn i sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel i'r plant. Maent wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau derbyniol ar waith ar gyfer rheoli cofnodion, cynnal polisïau ac adolygu ansawdd y gofal.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt a pha adnoddau yr hoffent eu defnyddio. Yn ystod amser byrbryd, caiff y plant ddewis lle yr hoffent eistedd ac maent yn dewis eu sedd yn hyderus. Maent yn dewis y bwyd maent am ei gael, naill ai ar lafar neu drwy bwyntio. Mae'r plant yn symud yn rhydd rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored, yn ogystal â rhwng gweithgareddau. Mae rhai o'r plant yn fodlon eu byd ac yn dangos mwynhad, tra bod eraill wrthi'n setlo. Ar y cyfan, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Gwelsom nifer o'r plant yn gwenu wrth iddynt gymryd rhan yn eu gweithgareddau chwarae, er enghraifft wrth redeg ar ôl aelod o'r staff gyda photel chwistrellu dŵr.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cydberthnasau â'r plant eraill a'r staff ac maent yn gyfarwydd â threfn y lleoliad. Gwelsom gydberthnasau cryf ymhlith y staff a'r plant. Er enghraifft, pan roedd plentyn yn ofidus cafodd faldod gan aelod o'r staff a wnaeth ei dawelu. Mae'r plant yn dechrau mynegi eu hunain drwy ddulliau llafar a dieiriau. Cânt ymateb ar unwaith i'w ceisiadau a'u hawgrymiadau. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn wahodd aelod o'r staff i chwarae gêm gardiau gydag ef, ymatebodd yr aelod o staff ar unwaith gan eistedd ar y llawr gyda'r plentyn ac edrych ar y lluniau ar y cardiau a'u trafod.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran. Er enghraifft, roeddent yn rhannu'r adnoddau wrth chwarae â'r hambwrdd dŵr ac wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd jig-so. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau â'i gilydd. Wrth chwarae yn yr awyr agored, chwaraeodd y plant ochr yn ochr â'i gilydd, gan symud y clustogau o'r stand a'u gosod mewn rhes.

Mae'r plant yn dangos lefelau ymgysylltu priodol wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfeiriedig a hunangyfeiriedig. Er enghraifft, cymerodd y plant ran mewn gweithgaredd chwarae dychmygol wrth iddynt ddefnyddio'r hambwrdd dŵr, gan esgus eu bod yn pysgota ac enwi'r pysgod. Mae'r plant yn chwarae'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Mae rhai yn gwrando'n astud ac yn cyd-chwarae, yn rhannu adnoddau, yn cyd-drafod, yn cymryd eu tro ac yn dilyn cyfarwyddyd gan y staff. Er enghraifft, dilynodd y plant gyfarwyddiadau er mwyn creu llwybr gan ddefnyddio'r briciau adeiladu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu, sy'n eu galluogi i wneud rhai pethau yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r sinc gyda chymorth i olchi eu dwylo, ac yn rhoi'r tywelion papur yn y bin yn annibynnol. Maent hefyd yn bwydo eu hunain yn ystod amser bwyd, yn helpu i arllwys llaeth neu ddŵr ac yn mynd i nôl adnoddau.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi gweithdrefnau glanhau a hylendid effeithiol ar waith. Mae'r staff yn cynnal systemau effeithiol ar gyfer storio bwyd yn ddiogel. Mae'r aelod o staff sy'n paratoi ac yn dosbarthu byrbrydau yn gwisgo ffedog a menig untro wrth helpu'r plant yn ystod amser bwyd. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a gallant ddisgrifio â phwy y byddent yn cysylltu os byddai ganddynt bryderon. Mae'r staff yn cwblhau'r ffurflenni damweiniau yn briodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal cofrestrau effeithiol sy'n gywir ac yn adlewyrchu amseroedd cyrraedd a gadael y staff a'r plant.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd effeithiol. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan drin y plant â charedigrwydd a gofal. Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a'u hunan-barch, *"Clever girl. Good listening."* Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda drwy eu hannog i aros eu tro ac i fod yn garedig tuag at eu ffrindiau. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol ac agos â nhw. Mae'r staff yn deall dewisiadau'r plant ac yn sensitif i anghenion pob plentyn. Maent yn casglu gwybodaeth fanwl am y plant cyn iddynt ddechrau, ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion unigol pob plentyn eu diwallu.

Mae'r drefn ar gyfer newid cewynnau yn dangos urddas, gofal a pharch ac mae'r staff yn dilyn y weithdrefn yn gywir. Gwnaethom drafod y mat newid cewynnau, a chafodd ei newid yn dilyn yr ymweliad. Mae amseroedd byrbryd yn ddigynnwrf ac yn drefnus. Mae'r staff yn sicrhau bod byrbrydau yn cael eu gweini gyda gofal a heb unrhyw frys. Caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo yn ystod amser byrbryd wrth i'r staff roi cyfleoedd i'r plant helpu i arllwys eu diodydd.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu'r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn wybodus am ddatblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau yn unol â hynny. Maent yn asesu cynnydd y plant yn aml ac yn monitro eu dysgu a'u datblygiad yn dda. Mae'r staff yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn aml gyda'r plant, gan enwi lliwiau, rhifau a defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg am yn ail mewn brawddegau byrrach. Mae'r staff yn darparu amgylchedd dysgu cytbwys lle gall y plant ddilyn eu diddordebau, yn ogystal â chynllunio rhai gweithgareddau strwythuredig, er enghraifft gweithgareddau'n seiliedig ar stori'r Gryffalo. Maent hefyd yn sicrhau bod syniadau'r plant yn rhan o gynlluniau'r diwrnod. Mae'r staff yn ehangu dysgu'r plant yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â nhw mewn ffyrdd ystyrlon drwy ofyn cwestiynau a defnyddio a chyflwyno iaith yn ystod eu gweithgareddau chwarae. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o anghenion, trefn ac arferion y plant.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae systemau da ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o ymwelwyr. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ar waith i sicrhau y caiff risgiau diangen i'r plant eu dileu cymaint â phosibl. Datblygwyd yr asesiadau risg ar gyfer yr ardal awyr agored ymhellach yn ystod yr ymweliad arolygu i gynnwys y cyfarpar chwarae a'r gweithgareddau. Maent yn sicrhau bod profion PAT yn cael eu cynnal a bod yr holl wiriadau diogelwch eraill ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond gellir datblygu'r broses o gofnodi'r rhain ymhellach. Gwelsom arferion hylendid cyson, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pawb, er enghraifft glanhau a defnyddio chwistrell diheintio rhwng sesiynau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad yn gynnes, yn groesawgar ar yn addas i'r plant. Mae'r ardaloedd dan do yn olau, yn daclus ac yn rhoi rhyddid a lle i'r plant symud o gwmpas. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd sydd wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog, gan annog dysgwyr chwilfrydig i archwilio. Maent yn sicrhau bod gan y plant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i hybu datblygiad y plant. Maent yn sicrhau y gall y plant fynd allan i'r awyr agored fel y dymunant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardal awyr agored fawr sy'n ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a chyfarpar chwarae da. Er enghraifft, tŷ chwarae, ardaloedd plannu, cegin fwd a chyfarpar dringo, ymhlith pethau eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar yr adnoddau'n annibynnol drwy ddarparu dulliau storio, dodrefn a chyfarpar lefel isel. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu hunangyfeiriedig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ac sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt. Maent yn amrywiol er mwyn cynnal diddordebau'r plant ac mae digon ohonynt er mwyn sicrhau bod digon o ddewis ar gael iddynt. Er enghraifft, mae amrywiaeth o adnoddau crefft, jig-sos, ardal chwarae rôl cegin gydag offer ac ategolion, ceir a cherbydau eraill, llyfrau, gemau bwrdd ac adnoddau byd bach ar gael. Caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r ymarfer drwy'r adnoddau, yr arddangosfeydd a'r gweithgareddau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Mae ganddynt Ddatganiad o Ddiben clir sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Maent yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff a'r unigolyn cyfrifol sy'n gysylltiedig â'r lleoliad. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant dilys ar gymorth cyntaf ac amddiffyn plant. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach. Yn ystod yr ymweliad, ni allai'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddarparu dogfennaeth lawn mewn perthynas â phob aelod o'r staff. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth o'r holl ddogfennaeth yn dilyn yr ymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio addas yn ogystal ag arfarniadau blynyddol gyda'r staff, a chaiff y rhain eu dogfennu'n glir. Dywedodd y staff wrthym gymaint y maent yn mwynhau gweithio yn y lleoliad a'r ffaith eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o fewn eu rolau. Mae eu balchder a'u brwdfrydedd yn amlwg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adroddiad addas ar ansawdd y gofal bob blwyddyn. Maent yn ceisio barn y rhieni a'r gofalwyr yn ogystal â'r plant. Fodd bynnag, ni chaiff barn y staff a'r plant eu cynnwys yn yr adolygiad nac yn y cynlluniau datblygu ychwaith. Maent yn sicrhau bod contractau priodol ar waith ar gyfer y plant yn eu gofal ac maent yn darparu gwasanaeth dibynadwy. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod wedi cael y caniatadau perthnasol gan y rhieni.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n agos gyda rhieni. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am bob agwedd ar y gwasanaeth ar ffurf cylchlythyrau ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac mae'r staff yn rhoi adborth dyddiol iddynt am amser y plant yno, ar lafar a thrwy ddyddiadur dyddiol ysgrifenedig. Roedd yr adborth a gawsom gan y rhieni a'r gofalwyr fel rhan o'r broses arolygu yn gadarnhaol iawn, *'Staff are very friendly, kind, polite and professional. I feel my child is in safe hands'* a '*my child is always happy at the setting,' 'The staff are very caring and reassuring,' 'They offer a lot of fun and educational activities.*' Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r ymwelydd iechyd a chynnal sesiynau pontio gyda'r ysgolion bwydo lleol yn ogystal ag asiantaethau cymorth eraill.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 (2) (a) [ii] | Nid yw ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Datblygu'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ymhellach i gynnwys barn y plant a'r staff yn ogystal â thargedau datblygiadol y gwasanaeth. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu cofnodion ymarferion tân ymhellach drwy gynnwys amseroedd gwirioneddol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/11/2024